# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Cabinet

08 Rhagfyr 2022

Annwyl Aelod,

**Y CABINET – 13 RHAGFYR 2022**
**EITEM FRYS : YSGOL TREFERTHYR – CYNYDDU CYLLIDEB CYFALAF Y PROSIECT**

Atodaf adroddiadau brys yng nghyswllt yr eitemau isod:-

**3. MATERION BRYS YSGOL TREFERTHYR – CYNYDDU CYLLIDEB CYFALAF Y PROSIECT** 2 - 5

Yn gywir,

Annes Sion

**Arweinydd Tim Democratiaeth**

**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Rhagfyr 2022 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Beca Brown |
| **Swyddog Cyswllt:** | Gwern ap Rhisiart – Swyddog Addysg Ardal Dwyfor Meirionnydd |
| **Teitl yr eitem**: | Ysgol Treferthyr – cynyddu cyllideb cyfalaf y prosiect |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**1.1** Cymeradwyo cynyddu cyllideb ar gyfer datblygu Ysgol Treferthyr newydd i **£8,145,206**

**1.2** Caniatáu trosglwyddo **£3,261,880** o gyllideb gweddill amlen Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy (Band B) er mwyn cyfarch cynnydd sylweddol yng nghostau y prosiect, gan dderbyn y bydd yn arwain at lai o gyllideb ar gael i wireddu prosiectau eraill o fewn Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy Gwynedd.

**2. CEFNDIR**

**2.1 TREFN STATUDOL**

Yn ei gyfarfod 18 Mai 2021 bu i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

Bu i asesiadau effaith ar y gymuned, iaith Gymraeg, Llesiant a cydraddoldeb eu cynnal a gellir gweld rhain drwy ddilyn y linc yma: Asesiadau Effaith

**2.2 CYLLID CYFALAF**

**2.2.1 Grant Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy**

Yn dilyn cyflwyno cais am gyllid o Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy bellach, derbyniwyd gadarnhad drwy lythyr cytundeb ar 24 Mawrth 2021 fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu £3,174,162, sef 65% o gyllideb llawn o £4,883,326, ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth, gyda Chyngor Gwynedd yn cyfrannu'r 35% arall.

Roedd y costau ar gyfer y cais BJC yn seiliedig ar brisiau'r farchnad ar y pryd ac ar ganllawiau llunio achosion busnes Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

**2.2.2 Grant Gofal Plant**

Yn ychwanegol i gyllid Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfraniad Grant Gofal Plant o £308,000 i'n galluogi i gynnwys uned blynyddoedd

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

cynnar ar safle yr ysgol newydd. Mae'r grant yma yn barod wedi ei hawlio ym Mawrth 2022.

**2.2.3 Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae cyfraniad o £300,000 o Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi ei gymeradwyo ar gyfer lleoli Uned Asesu Anghenion Dysgu Ychwanegol ar safle yr ysgol newydd.

**2.3 CAMAU WEDI EU CWBLHAU**

**2.3.1 Apwyntio prif gontractwr**

Yn 2019 apwyntiwyd Prif Gontractwr i'r prosiect ar sail 'Early Contractor Involvement (ECI)' i fod yn rhan o ddatblygu y dyluniad, o dan arweiniad y Pensaer, ac i fynd ymlaen i fod yn Brif Contractwr.

**2.3.2 Archwiliad archeolegol**

Mae archwiliadau archeolegol cynhwysfawr wedi eu cynnal ar y safle gyda rhai olion cyn-hanes wedi eu darganfod. Mae adroddiad yn cael ei baratoi i'w ystyried gan Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd er mwyn penderfynu ar unrhyw waith ychwanegol.

**2.3.3 Cais cynllunio**

Mae'r cynllun wedi derbyn cymeradwyaeth cynllunio ac rydym yn barod i gychwyn y gwaith ar y safle unwaith bydd yr adroddiad archwiliad archeolegol wedi ei gymeradwyo gan Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd a'r cyllid ychwanegol wedi ei gadarnhau.

**2.3.4 Prynu tir**

Mae'r tir ar gyfer safle'r ysgol newydd wedi ei brynu.

**2.3.5 Cais i Lywodraeth Cymru am addasiad i cyllideb Ysgol Treferthyr**

Mae cais i gynyddu cyllideb Ysgol Treferthyr i £8,145,206 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 28 Tachwedd 2022. Bydd angen cadarnhau penderfyniad y Cabinet cyn eu cyfarfod Panel Buddsoddi ar 15 Rhagfyr 2022 er mwyn iddynt wneud penderfyniad ar drosglwyddo cyllid i Brosiect Ysgol Treferthyr o brosiect arall yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy.

**3. RHESYMAU DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

**3.1 Cynnydd yng nghostau datblygu'r ysgol**

Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru am gyllideb o £4,883,326 ar gyfer y prosiect ym Mawrth 2021 mae costau wedi cynyddu yn sylweddol o ganlyniad i gynnydd yng nghostau deunyddiau, tanwydd, ynni a chwyddiant yn y deunaw mis diwethaf. Oherwydd hyn derbyniwyd pris newydd o **£6,930,644** gan Prif Gontractwr ym Medi 2022 ar gyfer y gwaith o adeiladu'r Ysgol.

**3.2 Cynnydd yng nghostau archeoleg**

Ni ddangosodd yr astudiaeth archeolegol wreiddiol unrhyw faes o ddiddordeb hanesyddol ar y safle. Er hynny, comisiynwyd astudiaeth geoffisegol ac yn dilyn hynny, fe wnaeth

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ofyn am waith 'trial trenches' ar 10% o'r safle. Bu inni lwyddo i ariannu'r gwaith yma o fewn y gyllideb wreiddiol. Yn dilyn y cloddio, darganfyddwyd olion un bedd oes efydd o bosib, ac o ganlyniad roedd angen gwaith pellach fel amod cynllunio. Mae'r gwaith pellach yma wedi'i gwblhau a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd. Rhagwelir felly y bydd cynnal y gwaith archeolegol ychwanegol yma yn costio **£120,000** yn ychwanegol.

**3.3 Cynnydd yng nghostau adeiladu i Net Zero Carbon (mewn defnydd)**
Wrth ddylunio'r ysgol, roedd Gwynedd wedi llwyddo i gynllunio adeilad sy'n ddi-garbon, sef, 'net zero carbon in operation', o fewn y gyllideb y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Yn anffodus mae'r elfen hon o'r dyluniad bellach wedi gweld chwyddiant eithriadol o uchel gan gynnwys costau'r lefelau uchel o insiwleiddio sydd wedi'u cynnwys a rhai o'r elfennau mecanyddol a thrydanol, yn enwedig y pympiau gwres ffynhonnell aer.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddyfodol ysgolion di-garbon ac rydym bellach yn cynnig y dylem nid yn unig gadw'r elfennau zero-carbon gwreiddiol o'r dyluniad ond hefyd ychwanegu paneli ffotofoltäig a batris Er mwyn gwneud hyn byddwn angen ychwanegu **£200,000** i'r gyllideb.

**3.4 Arbedion Value Engineering**
Wrth i waith datblygu'r dyluniadau ddigwydd mae cyfarfodydd 'value engineering' wedi eu cynnal i geisio adnabod arbedion posib i'w mabwysiadu. Ar ôl derbyn pris Wynne Construction ym Medi 2022 mae gwaith pellach wedi ei gynnal i geisio adnabod arbedion pellach. Roedd hyn yn cynnwys nifer o addasiadau gan gynnwys ail-leoli'r 'air source heat pumps' o dô'r adeilad i ardal allanol a newid manyleb elfennau fel ffensiau a waliau allanol. Mae'r ymarferiad yma wedi adnabod arbedion o oddeutu **£251,000** i gyllideb y prosiect.

**3.5** Golyga'r cynnydd yn y costau hyn a costau eraill bod cyfanswm cost y prosiect bellach yn **£8,753,206** gyda Grant Gofal Plant o **£308,000** a Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol o **£300,000** yn dod â'r angen am gyllid Cymunedau Dysgu Cynaladwy i **£8,145,206**.

**4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Felly, oherwydd y cynnydd sydd wedi bod yng nghostau Ysgol Treferthyr mae'r gyllideb y byddwn angen i wireddu'r prosiect yn sylweddol uwch na'r hyn gytunwyd ym Mawrth 2021. Golyga hyn fod diffyg o **£3,261,880** yn y gyllideb ac felly gofynnwn i'r Cabinet:

**4.1** Cymeradwyo cynyddu cyllideb Cymunedau Dysgu Cynaladwy ar gyfer datblygu Ysgol Treferthyr newydd i **£8,145,206**

**4.2** Caniatáu trosglwyddo **£3,261,880** o gyllideb Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy (Band B) er mwyn cyfarch cynnydd sylweddol yng nghostau'r prosiect, fydd yn arwain at lai o gyllideb ar gael i wireddu prosiectau eraill o fewn Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy Gwynedd.


**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL**

**Pennaeth Cyllid**
Gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau sydd yn yr adroddiad. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

**Swyddog Monitro**
Mae'r adroddiad yn gosod allan y cefndir arweiniodd at y cais yma ar gyfer adnoddau pellach. Mae hyn yn gam rhesymegol o ystyried y sail a chyfiawnhad gwreiddiol ar gyfer symud y prosiect pwysig yma ymlaen . Fe esbonnir y camau sydd wedi eu cymryd i sicrhau gwerth am arian mewn modd priodol. Rwy'n fodlon a phriodoldeb yr argymhelliad.